GRYM DROS FUSNES CREADIGOL

Croeso i Sgiliau Creadigol a Diwylliannol, y Cyngor Sgiliau Sector (sy'n cael ei ddatblygu) dros Hysbysebu, Crefftau, Treftadaeth ddiwylliannol, Dylunio, Cerddoriaeth, Celfyddydau Byw, Llên a Gweledol a Chyhoeddi*. Sefydliad a arweinir gan ddiwydiant ydym ni ac rydym yn addo cael dylanwad go iawn ar ddarparu addysg a sgiliau ledled y DU.

Cafodd Sgiliau Creadigol a Diwylliannol ei ffurfio ym Mai 2004, ac mae e'n cael ei ddatblygu ar hyn o bryd. Cafodd cais am drwydded lawn fel Cyngor Sgiliau Sector ei gyflwyno i Asiantaeth Ddatblygu Sgiliau Sector ar Ragfyr 9fed 2004 ac rydym yn gobeithio y cawn ein lansio fel Cyngor Sgiliau Cyngor hollol drwyddedig yn 2005.

Rydym yn gweithio ledled y DU ac mae gennym swyddfeydd yn ardaloedd creadigol Llundain a Leeds. Am y manylion, gweler Cysylltwch â Ni.

Ein Cadeirydd yw Tony Hall, Prif Weithredwr y Ty Opera Brenhinol, a'n Prif Weithredwr yw Tom Bewick. Mae ein bwrdd cyfarwyddwyr yn cynnwys cynrychiolwyr tra amlwg ledled y maes. Gallwch ddarllen eu proffiliau a gweld rhestr o'n staff yn Ein Pobl.

** Nid yw'r is-sector hwn yn rhan swyddogol o faes y CSS. Mae trafodaethau ar fynd.*

EIN POBL

Cadeirydd
Tony Hall
Prif Weithredwr, Y Ty Opera Brenhinol

Prif Weithredwr
Tom Bewick
tom.bewick@cciskills.org.uk

Ein Bwrdd
Jane Glaister
Cyfarwyddwr – Y Celfyddydau, Treftadaeth a Hamdden, CRhM Dinas Bradford

Catie Callender
Clear Channel

Christine Payne
Ysgrifennydd Cyffredinol Nesaf 'Equity'

Alison Wenham
Cadeirydd & Phrif Weithredwr, Cymdeithas Cerddoriaeth Annibynnol Cyf.

Fiona Reynolds
Prif Weithredwr, Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol

David Kershaw
Partner, M&CSAATCHI

David Worthington
Rheolwr-Gyfarwyddwr, Grwp Dylunio Conran

Rhagor o enwau a theitlau i'w cadarnhau

Ein staff
Rob Csik
Gweinyddydd
rob.csik@cciskills.org.uk

Jane Fear
Ymgynghorydd Ymchwil & Gwybodaeth
jane.fear@cciskills.org.uk

Jo Groom
Cynorthwy-ydd Gweithredol y Prif Weithredwr
jo.groom@cciskills.org.uk

Paul Hackwell
Cyfarwyddwr Cyllid Dros Dro
paul.hackwell@cciskills.org.uk

Andrine Haughton
Ymgynghorydd Cyfathrebu
andrine.haughton@cciskills.org.uk

Anne Mackintosh
Rheolwr Cefnogaeth Sefydliadol
anne.mackintosh@cciskills.org.uk

Kate Madelin
Rheolwr Rhaglen Sgiliau
kate.madelin@cciskills.org.uk

Will Menzies
Rheolwr Rhaglen Sgiliau
will.menzies@cciskills.org.uk

Emily Penny
Pennaeth Dros Dro yr Adran Gyfathrebu
emilypenny@theteam.co.uk

Amanda Szekely
Ymgynghorydd Cyfathrebu
amanda.szekely@cciskills.org.uk

David Wears
Rheolwr Trwydded a Gweithrediadau CSS
david.wears@cciskills.org.uk

Rachel Baker
Uwch Ymgynghorydd
rachel.baker@cciskills.org.uk

Caroline Hall
Rheolwr Cymwysterau
caroline.hall@cciskills.org.uk

EIN STATWS TRWYDDED

Mae Cynghorau Sgiliau Sector wedi'u trwyddedu gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Addysg a Sgiliau, mewn ymgynghoriad â'r Gweinidogion yn Yr Alban, Cymru a Gogledd Iwerddon. Maent yn cael eu cydlynu gan gorff cyhoeddus anadrannol, sef Asiantaeth Ddatblygu Sgiliau Sector (SSDA).

Mae'r broses ar gyfer sefydlu CSS yn dilyn tri cham:

1. Mynegi diddordeb yn cael ei gyflwyno a'i asesu. Mae'r mynegi diddordeb yn amlinellu pam y mae angen CSS ar gyfer y sector hwnnw ac yn dangos cefnogaeth iddo, yn enwedig gan gyflogwyr.
2. Cam datblygu. Mae hyn yn cymryd oddeutu chwe mis ac yn dod i ben pan mae asesiad o'r farchnad, cynllun strategol pum mlynedd a chynllun busnes am ddwy flynedd yn cael eu cyflwyno i'r SSDA.
3. Asesiad o'r achos busnes hwn. Mae hyn yn cymryd 11-13 wythnos ac os yw'n llwyddo, bydd yn arwain at drwydded bum mlynedd ac argymhelliad cytundeb cyllido tair blynedd sy'n cael ei anfon gan SSDA i'w gymeradwyo gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Addysg a Sgiliau.

Mae Sgiliau Creadigol a Diwylliannol yn cael ei ddatblygu ar hyn o bryd a chafodd cais am drwydded ei gyflwyno i'r SSDA ar Ragfyr 9fed 2004.

Byddwch cystal â chysylltu â ni yn info@cciskills.org.uk i gael copi o'r cynnig busnes llawn.

CREU SGILIAU AR GYFER LLWYDDIANT

Mae Sgiliau Creadigol a Diwylliannol yn darparu llais gwirioneddol ar gyfer cyflogwyr busnesau bach a mawr fel ei gilydd, dylanwadu mewn modd grymus ar faes darparu addysg a hyfforddiant ledled y Deyrnas Unedig.

Ein cenhadaeth yw sicrhau bod addysg a sgiliau o safon uchel ar gael ac o fewn cyrraedd cyflogwyr ac unigolion. Ein nod yw gwneud y cymwysterau sydd ar gynnig yn fwy perthnasol yn alwedigaethol a rhoi dewis gwybodus i fyfyrwyr ynghylch cyrsiau a llwybrau gyrfaol.

Ar gyfer busnesau, bydd hyn yn golygu:

- y bydd hi'n haws recriwtio'r sgiliau iawn ar yr adegau iawn
- y bydd hi'n haws dal gafael ar staff

Fe geir:

- gweithio'n graffach, rhagor o gynhyrchaeth
- rhagor o amrywiaeth
- rhagor o fusnes, gwell busnes

At ei gilydd, ein nod yw galluogi unigolion a busnesau i lwyddo.

Darllenwch am Cynghorau Sgiliau Sector.

Darllenwch ragor am Ein Haddewid ac Ein Gwerthoedd.

EIN HADDEWID

Mae Sgiliau Creadigol a Diwylliannol yn addo cael dylanwad go iawn ar ddarparu addysg a hyfforddiant; o gwricwlwm yr ysgol, hyfforddiant a phrentisiaeth yn y gwaith, hyd at addysg uwch, meithrin doniau a pharhau datblygiad proffesiynol.

Byddwn yn cyflawni hyn trwy:

- ehangu'r dewisiadau y mae pobl yn eu gwneud ar lwybrau gyrfaol a swyddi a thrwy ddarparu gwell cyngor a gwybodaeth. Rhestru a mynd i'r afael â'r rhwystrau sy'n golygu bod dewisiadau pobl yn gyfyng neu ddim yn cael eu cynnig. Gallwch ddarllen astudiaeth achos ynghylch yr hyn yr ydym yn ei olygu gan Dewis.
- sicrhau bod yr addysg a'r hyfforddiant a gynigir i bobl sy'n ymuno â neu'n gweithio yn ein diwydiannau, yn berthnasol i anghenion unigolion yn ogystal â gofynion cyfredol, ac yn y dyfodol, y cyflogwyr bach a mawr. Darllenwch astudiaeth achos ynglyn â'r hyn yr ydym yn ei olygu gan Perthnasedd.
- sicrhau system ymatebol ar gyfer addysg a hyfforddiant trwy roi ein cydnabyddiaeth gyhoeddus a'n cymeradwyaeth i'r sefydliadau, cymwysterau neu ddarparwyr hynny sy'n diwallu anghenion ein diwydiannau. Gallwch ddarllen astudiaeth achos ynghylch yr hyn yr ydym yn ei olygu gan Ymatebolrwydd.
- sicrhau bod amrywiaeth gweithlu a chydraddoldeb cyfle yn ganolog i'r hyn a wnawn er mwyn cynorthwyo i lunio sector mwy ffyniannus, ehangu cronfa'r doniau sydd ar gael, mynd i'r afael ag agwedd hunanfodlon, a chynorthwyo i gynnal cymunedau cynhwysol, creadigol sydd wedi'u hysbrydoli gan ddiwylliant. Darllenwch astudiaeth achos ynghylch yr hyn yr ydym yn ei olygu gan Amrywiaeth.

Darllenwch am Ein gwerthoedd a Chynghorau Sgiliau Sector.

EIN GWERTHOEDD

Mae Sgiliau Creadigol a Diwylliannol yn cynnig menter a phartneriaeth newydd rhwng y llywodraeth a diwydiant. Caiff ein gwerthoedd eu seilio ar:

- **Arbenigedd heb ei ail** mewn sgiliau sector (ymchwil marchnata, gwybodaeth am sgiliau a chynllunio gweithlu).
- **Cael cyflogwyr i fod â rhan sydd i'w fawr chwennych** mewn materion sgiliau a pherfformiad busnes.
- **Defnyddio ffydd** yn sail ar gyfer cymryd camau gweithredu cyfunol trwy lunio partneriaethau rhagorol a gweithredu yn ôl yr hyn y mae ar gyflogwyr ei eisiau ac unigolion ei angen.
- **Creadigedd a phroffesiynoldeb** ym mhopeth a wnawn, gan arwain trwy osod esiampl.
- **Gweithredu ar frys** o ran ein dull ymdrin â'n cyflawniad.

Darllenwch am Cynghorau Sgiliau Sector ac Ein Addewid.

YNGLYN Â CHYNGHORAU SGILIAU SECTOR

Sefydliadau annibynnol ledled y DU, a ddatblygwyd gan grwpiau o gyflogwyr dylanwadol mewn sectorau diwydiant neu fusnes o bwysigrwydd economaidd neu strategol yw Cynghorau Sgiliau Sector (CSS). Caiff CSS eu harwain gan gyflogwyr ac maent yn sicrhau bod undebau llafur, cyrff proffesiynol a budd-ddeiliaid yn chwarae rhan weithredol yn y sector. Caiff CSS eu trwyddedu gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Addysg a Sgiliau, mewn ymgynghoriad â'r Gweinidogion yn Yr Alban, Cymru a Gogledd Iwerddon, er mwyn mynd i'r afael ag anghenion sgiliau a chynhyrchaeth eu sector trwy'r DU.

Mae CSS yn rhoi'r cyfrifoldeb i gyflogwyr gynnig yr arweiniad ar gyfer gweithredu strategol er mwyn diwallu anghenion sgiliau a busnes eu sector. Yn gyfnewid am hynny maent yn cael buddsoddiad cyhoeddus sylweddol a rhagor o drafodaeth gydag adrannau'r llywodraeth ledled y DU. Bydd hyn yn galluogi cyflogwyr yn y sector i gael llawer mwy o effaith ar bolisïau sy'n effeithio ar sgiliau a chynhyrchaeth, a rhagor o ddylanwad ar bartneriaid addysg a hyfforddiant. Bydd pob CSS yn cytuno ar flaenoriaethau a thargedau'r sector gyda'i gyflogwyr a'i bartneriaid er mwyn mynd i'r afael â phedwar nod allweddol:

- Lleihau'r prinder a bylchau mewn sgiliau.
- Gwella cynhyrchaeth a pherfformiad busnes a pherfformiad gwasanaeth cyhoeddus.
- Cynyddu'r cyfleoedd i hybu sgiliau a chynhyrchaeth pawb yng ngweithlu'r sector, yn cynnwys camau gweithredu ynghylch cyfle cyfartal.
- Gwella'r cyflenwad dysgu, yn cynnwys safonau'r prentisiaethau, addysg uwch a galwedigaethol cenedlaethol.

CYSYLLTWCH Â NI

Ymholiadau Cyffredinol
0113 244 6879

Ymholiadau Recriwtio
Anne Mackintosh
0113 244 6254

Ymholiadau'r Wasg
Emily Penny
020 7089 5865

Cynorthwy-ydd Gweithredol i Tom Berwick,
Prif Weithredwr
020 7089 5866

Swyddfa Leeds
1 Marshall Court
Marshall Street
Leeds
LS11 9YP

Swyddfa Llundain
11 Southwark Street
London
SE1 1RQ

Ffacs 0113 244 8577
Ebost info@cciskills.org.uk